



At yr holl Leoliadau Gofal Plant a Gofal Dydd yng Nghymru

20 January 2021

Annwyl gydweithiwr

Ym mis Ionawr y llynedd, ysgrifennais i'ch hatgoffa o'r gofynion mewn perthynas â chymwysterau staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gofal dydd, gan gynnwys chwarae mynediad agored a lleoliadau gofal plant tu allan i'r ysgol. Dyma gopi o'r llythyr hwnnw:

<https://llyw.cymru/llythyr-atgoffa-ar-gyfer-pob-lleoliad-gofal-plant-gofal-dydd>

Mae'n nodi bod rhaid i bawb sy'n gyfrifol am leoliadau o'r fath, a chyfran o'r staff nad ydynt yn staff goruchwyllo sy'n gweithio yn y lleoliadau hyn, feddu ar gymhwyster perthnasol erbyn 30 Medi 2021, er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir i blant hyd at 12 oed. Mae'r rhain i'w gweld yn y [fframwaith/siart llif](#) yn fy llythyr.

Fel y nodwyd yn fy llythyr atgoffa, nid yw'r llythyr hwn yn berthnasol i Warchodwyr Plant

Fodd bynnag, eleni mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi arwain at rai heriau cymhleth o ran darparu a chyflawni cymwysterau, gan gynnwys atal hyfforddiant wyneb yn wyneb, gostyngiad mewn lleoliadau dysgu seiliedig ar waith oherwydd bod lleoliadau'n gorfod cau a phryder ynghylch ymweliadau aseswyr. Mae'r pandemig hefyd wedi golygu y bu'n rhaid gohirio dros dro ein proses gaffael bwriedig ar gyfer y cymhwyster Llwybr i Chwarae.

Nid yw'r pandemig wedi newid ein cred bod rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth gywir i staff yn allweddol i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel ac mai'r rhai sydd â chymhwyster cydnabyddedig fydd y bobl iawn i weithio yn y sector. Mae meddu ar gymhwyster gofynnol yn dystiolaeth bod ein gweithlu'n gwybod beth i'w wneud i gefnogi ein plant ac rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ddatblygu gweithlu gofal plant a chwarae medrus o ansawdd uchel yng Nghymru.

Er bod amrywiaeth o gyrrff wedi gweithio'n galed i roi addasiadau a mesurau lliniaru ar waith, rwy'n cydnabod bod hon wedi bod yn flwyddyn anodd i ddysgwyr, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a chyrrff dyfarnu ac rydym yn dal i wynebu llawer o ansicrwydd.

Rwy'n cydnabod y bydd llawer ar draws y sector sydd eisoes wedi ennill eu cymhwyster gofynnol ond rwyf hefyd yn cydnabod y bydd y pandemig yn golygu na fu hyn yn bosibl eto i

eraill. O ganlyniad, rwyf wedi penderfynu ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ennill cymhwyster gofynnol o 12 mis i **30 Medi 2022**.


Fodd bynnag, rwyf am ddatgan yn glir nad wyf yn rhagweld unrhyw estyniad pellach y tu hwnt i'r dyddiad hwn. Rwy'n eich annog i wneud y canlynol i sicrhau bod y dyddiad cau yn cael ei fodloni a bod eich lleoliad chi'n cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

- Mapiwch y gofynion cymwysterau ar gyfer y staff yn eich lleoliad. Defnyddiwch y [fframwaith/siart llif](#) priodol;
- Mapiwch yr amser sy'n ofynnol i gwblhau cymhwyster (ee. Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio o'r Blynyddoedd Cynnar i Waith Chwarae - 3 mis; Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae/ CCPLD - 18 mis);
- Cysylltwch â darparwr hyfforddiant yn eich ardal i bennu'ch gofynion hyfforddiant. Ceir rhagor o wybodaeth [yma](#) ac [yma](#). Gall lleoliadau gysylltu hefyd â'u sefydliad ambarél/aelodau perthnasol i gael cyngor, ee [Chwarae Cymru](#); [Clybiau Plant Cymru](#); [Blynyddoedd Cynnar Cymru](#); [Mudiad Meithrin](#) a [Chymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru](#);
- Cofrestrwch staff cyn gynted â phosibl er mwyn ichi allu cadw at y dyddiad cau newydd;
- Sicrhewch fod unrhyw gynlluniau gweithredu DPP neu hyfforddiant a luniwch yn nodi sut a phryd y bydd eich staff yn ennill y cymwysterau angenrheidiol. Caiff yr wybodaeth hon ei hystyried gan AGC yn ystod y broses arolygu.

I'ch helpu i fodloni'r gofynion hyn, mae cyllid ar gael drwy [brentisiaethau](#) Llywodraeth Cymru a thrwy [Cynnydd ar gyfer Llwyddiant](#) tan y dyddiad cau newydd.

Gofynnaf i chi roi sylw i'r gofynion ar gyfer eich lleoliad ac rwy'n eich annog i weithredu nawr gan y bydd y galw am hyfforddiant yn uchel iawn yn ôl pob tebyg. Drwy wneud hyn, byddwch yn mynd ati i sicrhau bod staff, fel y nodir uchod, yn meddu ar y cymwysterau angenrheidiol erbyn **30 Medi 2022**.

Yn gywir



Nicola Edwards

**Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar
Deputy Director Childcare, Play and Early Years Division**

Cc:

Care Inspectorate Wales; Social Care Wales; SkillsActive; Play Wales; CWLWM; AWARE; WLGA; Local Authority Chief Executives; Local Authority Play Co-ordinators; Local Authority Childcare Co-ordinators; Family Information Services